

# Y Greadigaeth

O Dduw, mor brydferth a gogoneddus yw dy greadigaeth:  
 Ti yw brenin creadigaeth  
 Ti yw awdur iachawdwriaeth  
 Plygwn yn wylaidd ger dy fron a hynny mewn rhyfeddod.

## EMYNAU

### Y Duw a greodd yw'r Duw sy'n cynnal:

Arglwydd mawr y nef a'r ddaear,  
 ffynnon golud pawb o hyd,  
 arnat ti dibynna'r cread,  
 d'ofal di sy'n dal y byd;  
 am gysuron a bendithion,  
 cysgod nos a heulwen dydd,  
 derbyn ddiolch, derbyn foliant  
 am ddaioni rhad a rhydd.

J. Lloyd Humphreys (*Caneuon Ffydd*: 93)

### Y Llywiwr a'r Crëwr, ti yw grym y cread a grym ein bywyd ni:

Ti sy'n llywio rhod yr amser  
 ac yn creu pob newydd ddydd,  
 gwrando, Iôr, ein deisyfiadau  
 a chryfha yn awr ein ffydd:  
 ynot y cawn oll fodolaeth,  
 ti yw grym ein bywyd ni,  
 'rwy't Greawdwr a Chynhaliwr,  
 ystyr amser ydwy't ti.

W. Rhys Nicholas (*Caneuon Ffydd*: 100)

**Boed i'n harbrefion fod yn foddion i'th ddatgelu di a thrwy hynny  
 boed i'r darlun ddod yn gliriach:**

Arglwydd mawr y cyfrinachau,  
 ti yw saer terfynau'r rhod,  
 artist cain yr holl ddirgelion  
 a chynlluniwr ein holl fod:  
 creaiſt fywyd o ronynnau  
 a rhoi chwyldro yn yr had;  
 rhannu, Iôr, wnest ti o'th stordy  
 amhrisiadwy olud rhad.

Dafydd Whittall (*Caneuon Ffydd*: 101)

### **Yn amrywiaeth ac ysblander y byd o'n cwmpas clodforwn yr anhraethol Dduw:**

Glendid maith y cread, syndod ei ddieithrwhc,  
 gwyrth ein daear fechan, rhyfeddod bod a byw,  
 diolch am gael profi yn y dwys ddirgelwch  
 ras a gogoniant yr anhraethol Dduw.

W. T. Pennar Davies (*Caneuon Ffydd*: 123)

### **Am brydferthwch pob awr, prydferthwch y cread a phrydferthwch teulu a chyfeillion diolchwn i Dduw:**

Am brydferthwch daear lawr,  
 am brydferthwch rhod y nen,  
 am y cariad rhad bob awr  
 sydd o'n cylch ac uwch ein pen,  
 O Dduw graslon, dygwn ni  
 aberth mawl i'th enw di.

F. S. Pierpoint *cyf.* John Morris-Jones (*Caneuon Ffydd*: 104)

### **Ystyriwn fyd heb blanhigion, byd heb anifeiliaid, byd heb bobl a byd heb neb i'w garu a maddau iddo:**

Meddwl am fyd heb flodyn i'w harddu,  
 meddwl am wlad heb goeden na llwyn,  
 meddwl am awyr heb haul yn gwenu,

meddwl am wanwyn heb awel fwyn:  
diolchwn, Dduw, am goed a haul a blodau,  
diolchwn, Dduw, rhown glod i'th enw di.

Doreen Newport *cyf.* Siân Rhiannon (*Caneuon Ffydd*: 869)

## GWEDDIAU

### **Dyma gyfle i ni lonyddu a dysgu rhyfeddu at ryfeddod y greadigaeth:**

O! Dduw, creawdwr a chynhaliwr pob peth byw, trown atat yn awr i fyfyrto o'r newydd ar waith dy fysedd.

Diolchwn am y gallu i ryfeddu at brydferthwch a gogoniant y cread; ac i ryfeddu dy fod ti, O! Dduw, wedi ein creu ni, a'n creu ychydig is na'r angyllion, a'n creu i fyw er gogoniant i'th enw.

Ategw'n eiriau'r salmydd pan ddywed, 'Y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol', a 'Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd, fe'u harchwilir gan bawb sy'n ymhyfrydu ynddynt'. Amen.

Dewi Roberts

### **Yn y dechreuad yr oedd y Gair gyda Duw:**

Cydnabyddwn fod pob peth wedi ei greu trwy Iesu Grist, 'ac er ei fwyn ef'. Ef yw'r Gair oedd 'yn y dechreuad gyda Duw', ac wrth enw Iesu fe blyg 'pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear'. Ef yw 'cyntaf anedig yr holl greadigaeth', ac ynddo ef y caiff yr holl greadigaeth ei dwyn i undod. Amen.

Peter Davies

### **Sylweddolwn fod y cyfrifoldeb wedi'i osod arnom i fod yn stiwardiaid y cread:**

Ond wrth ddiolch am dy ofal trosom, a thros dy greaduriaid lleiaf, boed inni weld y cyfrifoldeb sydd wedi ei osod arnom fel stiwardiaid dy greadigaeth. Oblegid rhoist inni 'awdurdod ar waith dy ddwylo'. Gresynwn nad ydym wedi defnyddio'r awdurdod hwn yn y modd gorau bob amser. Yn wir, yr ydym wedi camddefnyddio a difetha dy greadigaeth.

Yr ydym wedi bod yn wastrafflyd a thrachwantus yn ein defnydd o adnoddau'r ddaear. Amen.

Dewi Roberts

### **Maddau i ni am gam-drin a difwyno'r ddaear:**

Greawdwr Dduw,

diolchwn iti am rodd y blaned daear,  
am harddwch dydd yn ei ddisgleirdeb,  
am fedru gorffwys y nos mewn tywyllwch.

Rydym yn cyfaddef na fuom yn deilwng o'th rodd;  
rydym wedi difwyno'r ddaear  
a gawsom yn etifeddiaeth;  
rydym wedi anwybyddu deddfau ieched natur;  
rydym wedi anufuddhau i'th air.

Maddau inni a chynorthwya ni i gymryd gwell gofal  
o'n cartrefle cyffredin, y fam ddaear. Amen.

John Johansen-Berg

### **Diolchwn am yr harddwch sydd o'n cwmpas yn wastadol:**

Dduw byw,

diolchwn i ti am harddwch y ffurfafen,  
am yr eangderau maith uwch ein pennau,  
am gymylau yn haenau  
wedi eu pentyrru'n uchel yn y nefoedd,  
am ogoniant tanllyd y machlud,  
am anadl bywyd mewn aer pur. Amen.

John Johansen-Berg

### **ADNODAU**

**Neges ganolog y Beibl o'r dechrau yw mai Duw yw'r Creawdwr. Nid dadl ond ffaith:**

Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.

Genesis 1: 1

**Mynegi mae'r Salm hon mai Duw piau pob peth:**

Eiddo'r ARGLWYDD yw'r ddaear a'i llawnder,  
y byd a'r rhai sy'n byw ynddo;

Salm 24: 1

**Mae Duw wedi rhoi i ni ddoniau i ofalu am y greadigaeth:**

Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo,  
a gosod popeth dan ei draed:  
defaid ac ychen i gyd,  
yr anifeiliaid gwylltion hefyd,  
adar y nefoedd, a physgod y môr,  
a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd.

Salm 8: 6–8

**Mae'n ofynnol i ni ddefnyddio'r rhoddion a'r doniau fel stiwardiaid cyfrifol:**

Bydded i bob un ein cyfrif ni fel gweision Crist a goruchwylwyr dirgelion Duw. Yn awr, yr hyn a ddisgwylir mewn goruchwylwyr yw eu cael yn ffyddlon.

1 Corinthiaid 4: 1–2

**Ti yn unig sy'n teilyngu'r clod a'r mawl am y greadigaeth gyfan:**

“Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a'n Duw,  
i dderbyn y gogoniant a'r anrhydedd a'r gallu,  
oherwydd tydi a greodd bob peth,  
a thrwy dy ewyllys y daethant i fod ac y crewyd hwy.”

Datguddiad 4: 11

**Mae cymorth i'r unigolyn yn treiddio o haelioni Creawdwr nefoedd a daear:**

Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd;  
o ble y daw cymorth i mi?

Salm 121: 1

**DYWEDIADAU A THRADDODIADAU**

Byd Duw yw hwn fel y gall dyn gydweithio â Duw ynddo a thrwyddo. Does dim rhaid i ddyn chwilio neu ddisgwyl am fyd arall er mwyn gallu ymgysegru i Dduw a'i wasanaethu. Gall ddefnyddio pethau'r byd hwn i wasanaethu cyd-ddyn, a gogoneddu Duw trwy wneud hynny.

*Duw a phob daioni*

Syndod a rhyfeddod yw sylfaen pob addoliad.

Duw a'i gwnaeth; ninnau a ryfeddwn.

Dihareb Sbaenaidd

Mae Duw y Creawdwr yn abl i wneud popeth ond fedr O ddim plesio pawb.

Duw greodd y wlad a dyn greodd y dref ac mae'r gwahaniaeth yn amlwg.

Vance Havner

Creodd Duw'r byd o ddim, a thra byddwn ninnau'n ddim gall wneud rhywbeth ohonom ni.

Martin Luther